**LC1172**

| ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU | LEGISLATION COMMITTEE REPORT |
|---|---|

## Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2005

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer gweithredu a gorfodi Rheoliad EC 882/2004 ar reolaethau swyddogol a weithredir i sicrhau bod cydymffurfedd â'r gyfraith yn cael ei wirio ynglyn â bwyd anifeiliaid a bwyd, rheolau iechyd anifeiliaid a rheolau lles anifeiliaid o ran cyfraith bwyd anifeiliaid berthnasol a chyfraith bwyd berthnasol (y diffinnir y naill a'r llall yn Rheoliadau).

### Rheol Sefydlog 11.7

Mae'r pwyntiau canlynol wedi'u nodi i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7.

Mae Rheoliad 3 yn dynodi'r awdurdodau cymwys at ddibenion cyfraith bwyd anifeiliaid a chyfraith bwyd. Mae Rheoliad 3(3) yn dynodi, trwy gyfeiriad at Atodlen 5, yr awdurdodau cymwys at ddibenion cyfraith bwyd. Fodd bynnag, mae'r croes gyfeiriad yn rheoliad 3(4) yn cyfeirio'n anghywir at "awdurdod bwyd anifeiliaid". [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Yn nhestun Cymraeg rheoliad 9(4), defnyddiwyd y llythyren "(d)" yn hytrach nag "(ch)" i ddynodi'r pedwerydd is-baragraff. [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Mae rheoliad 9(8) yn darparu y bydd person, sy'n mynd i mewn i unrhyw fangre yn rhinwedd y pwer i ofyn am wybodaeth fel y nodir yn rheoliad 9(1), sy'n datgelu unrhyw gyfrinach fasnachol yn euog o dramgwydd. Y geiriad a ddefnyddir i fynegi'r tramgwydd hwn yn rheoliad 9(8) yw "Os bydd person, sy'n mynd i mewn i unrhyw fangre yn rhinwedd yr adran hon..." Dylid dileu'r gair "adran", a rhoi'r gair "rheoliad" yn ei le. [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Mae rheoliad 15(1) yn darparu y gall swyddog gorfodi wrth fynd i mewn i fangre at ddibenion gweithredu a gorfodi rheolaethau swyddogol, fynd ag arbenigydd gydag ef/hi er mwyn galluogi'r arbenigydd hwnnw i gyflawni swyddogaethau o dan Erthygl 45 o Reoliad EC 882/2004. Mae'r testun Cymraeg yn awgrymu y gall swyddog gorfodi fynd ag arbenigydd gydag ef neu hi i'r Comisiwn yn hytrach nag i'r fangre. [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Mae rheoliad 27(1) yn darparu na ellir cyflwyno i Gymru o drydedd wlad fwyd anifeiliaid sy'n mynd yn groes i ofynion diogelu bwyd anifeiliaid neu sy'n methu â chydymffurfio â'r gofynion hynny. Yn y cyd-destun hwn mae "safety" yn y testun Saesneg yn golygu bod y bwyd yn ddiogel i anifeiliaid ei fwyta. Fodd bynnag, mae'r testun Cymraeg yn defnyddio'r gair "diogelu" sy'n awgrymu ei fod yn cyfeirio at warchod neu gadw'r bwyd anifeiliaid ei hun yn ddiogel. (Mae'r enghreifftiau eraill o'r gair "safety" sy'n ymddangos yn rheoliad 27 wedi eu mynegi'n gywir yn y testun Cymraeg fel "diogelwch"). [Rheol Sefydlog 11.7(v)].

Mae Atodlen 2 yn diffinio cyfraith bwyd berthnasol. Yn y testun Cymraeg, ystyrir y dylid rhoi'r gair "anifeiliaid" ar ôl "bwydydd" ar ddiwedd paragraff (a) er mwyn egluro bod Deddf Amaethyddiaeth 1970 yn gymwys i fwyd anifeiliaid ac nid i fwyd dynol.

Gellir cywiro'r man wallau drafftio a nodir uchod trwy Femorandwm Cywiriadau.

## Sylwadau

Mae pwyntiau fformadu i'w hystyried adeg cyhoeddi'r rheoliadau wedi'u mynegi i'r cyfreithiwr drafftio.

## Glyn Davies AC

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

## 15 Tachwedd 2005